

21 Hydref 2024

Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol

Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Yn fy marn i:

- Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), a gyflwynwyd ar 21 Hydref 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- Ni fyddai adran 3 o'r Bil, sy'n rhoi swyddogaethau ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn i'r adran fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, ac ni chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwnnw ar hyn o bryd.
- Ni fyddai paragraff 1 o Atodlen 3 i'r Bil, sy'n addasu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn i'r paragraff fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, ac ni chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwnnw ar hyn o bryd.

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Y Llywydd

